



Beth Sy'n Gwneud Ffrind Da



Erbyn diwedd y ddrama, mae Ceridwen wedi sylweddoli cystal ffrind yw Morfran a'r holl nodweddion sy'n ei wneud yn ffrind arbennig. Mae'r gân yn rhestru pum nodwedd arbennig sy'n gwneud Morfran cystal ffrind. Mae e'n: greadigol; doniol; caredig; annwyl; help mawr.

Cam 1: Gwylwch [rhan yma'r](#) ddrama eto.

Cam 2: Holwch y plant: *Allwch chi ddod o hyd i bum nodwedd arbennig sy'n gwneud Morfran cystal ffrind?*

Cam 3: Unwaith iddyn nhw ddod o hyd i'r 5, gallwch gynnal trafodaeth dosbarth am y geiriau. Defnyddiwch y poster "Llaw Ffrindiau Llawen" i helpu.

Cam 4: Nawr, amser am sesiwn drafod "*beth sy'n gwneud ffrind da?*" - Ystyriwch ofyn am enghreifftiau penodol:

Pryd helpodd eich ffrind chi ddiwethaf? Sut?

Pam bod eich ffrind yn berson arbennig?

Sut mae eich ffrind yn gwneud i chi deimlo?

Fframwaith Llythrennedd

Mynegi barn, gan roi rhesymau a chynnig atebion priodol i gwestiynau.

Camau Cynnydd

Iechyd a Lles

Rwy'n gallu deall sut a pham mae fy meddyliau, fy nheimpladau a'm gweithredoedd yn newid mewn ymateb i wahanol brofiadau.

Rwy'n gallu mynegi fy anghenion a'm teimpladau yn fy nghydberthnasau, ac rwy'n sylwi ar anghenion a theimpladau pobl eraill.

Celfyddydau Mynegiannol

Rwy'n gallu cyfleu syniadau, teimpladau ac atgofion ar gyfer cynulleidfa ac ar gyfer dibenion a chanlyniadau yn fy ngwaith creadigol.

Cam 5: Gofynnwch i bob plentyn ddewis ffrind i ddathlu ar eu "Llaw Ffrindiau Llawen."

Anogwch y plant i fod mor greadigol a gallan nhw fod gan gynrychioli eu ffrindiau trwy luniau, lliwiau a geirfa dda.

Atgoffwch nhw i dynnu llun o'u ffrind ar gledr y llaw. Ar hyd y bysedd, gallan nhw labelu 5 nodwedd sy'n eu gwneud nhw'n ffrind da.

Efallai y bydd angen i chi osod pob pâr er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael eu dathlu.



Cam 6: Yn olaf, er mwyn sicrhau bod ein cyfeillgarwch yn dal i dyfu, cysylltwch y *Dwylo Llawen* fel dail ar *Goeden Gyfeillgarwch*. Bydd yn arddangosfa liwgar ac yn eich atgoffa yn ddyddiol o bwysigrwydd cyfeillgarwch yn y dosbarth.

Fframwaith Llythrennedd

Mynegi barn, gan roi rhesymau a chynnig atebion priodol i gwestiynau.

Camau Cynnydd

Iechyd a Lles

Rwy'n gallu deall sut a pham mae fy meddyliau, fy nheimpladau a'm gweithredoedd yn newid mewn ymateb i wahanol brofiadau.

Rwy'n gallu mynegi fy anghenion a'm teimpladau yn fy nghydberthnasau, ac rwy'n sylwi ar anghenion a theimpladau pobl eraill.

Celfyddydau Mynegiannol

Rwy'n gallu cyfleu syniadau, teimpladau ac atgofion ar gyfer cynulleidfa ac ar gyfer dibenion a chanlyniadau yn fy ngwaith creadigol.

